Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y CABINET**
a gynhaliwyd trwy fideo-gynadledda ar **Ddydd Mawrth, 22 Chwefror 2022**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 24 Chwefror 2022. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 3 Mawrth 2022 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 4 Mawrth 2022

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Catrin Miles, Ray Quant MBE ac Alun Williams

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr John Adams-Lewis, Bryan Davies, Ceredig Davies, Euros Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Lloyd Edwards, Keith Evans, Dan Potter, Lynford Thomas, Wyn Thomas a Ivor Williams

(10.00am - 1.00pm)

**180 Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol; Sian Howys, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal a Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol.

**181 Materion Personol**

i) Estynnwyd cydymdeimlad i deulu Selwyn Jones, a fu farw yn ddiweddar a thalodd yr Arweinydd deyrnged i'w gyfraniad helaeth i gymuned Pontrhydfendigaid.
ii) Estynnwyd llongyfarchiadau i Robat ac Enid Gruffudd (Y Lolfa) a fydd yn arwain y Parêd Dydd Gŵyl Dewi blynyddol yn Aberystwyth ar 5 Mawrth 2022.
iii) Estynnwyd llongyfarchiadau i Ysgol Dyffryn Cledlyn ar ei llwyddiant yn ddiweddar wrth ddod yn fuddugol mewn cystadleuaeth i gynhyrchu ffilm yn hyrwyddo diogelwch ar y rhyngrwyd.
iv) Estynnwyd cydymdeimlad i deulu Amy Jones, cyn weithiwr y Cyngor, a fu farw yn ddiweddar.

**182 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu.

**183 Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor parthed COVID-19**

Cafwyd diweddariad gan Yr Arweinydd ar y sefyllfa mewn perthynas â Covid-19. Adroddwyd ar 46 o achosion heddiw gan ddod â'r cyfanswm i 11,440 er dechrau'r pandemig, sy'n gyfystyr â 319.1 i bob 100,000 o'i gymharu â'r 449.8 a gofnodwyd yn y 7 niwrnod ynghynt, sy'n dangos gostyngiad yn y gyfradd. Mae'r gyfradd yng Nghymru yn 233.5 i bob 100,000 felly mae Ceredigion yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd. Mae'r gyfradd bositifedd yn y Sir yn 29.1% ar hyn o bryd.

Mae'r rhan fwyaf o'r achosion ymysg pobl 20-29 oed ac yn ôl data MSOA, ymddengys mai Aberystwyth oedd â'r gyfradd uchaf yn y sir ond dangoswyd

bod yr achosion wedi'u cyfyngu i Gampws Prifysgol Aberystwyth yn bennaf. Nid oes arwydd bod amrywiolyn Omicron yn parhau i ledaenu rhyw lawer yn y gymuned a gobeithio y bydd hwn yn gostwng fwy o ystyried bod yr ysgolion ar wyliau hanner tymor.

Diolchodd yr Arweinydd i Rhodri Llwyd, Phil Jones, Gerwyn Jones a phob aelod staff a fu'n gysylltiedig â'r gwaith yn ystod y stormydd diweddar, gyda Storm Franklin yn arwain at lifogydd yn y dwyrain a chwymp coed ledled y sir.

Bu'r ymateb i neges at aelodau staff yn gofyn am wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r canolfannau gorffwys mewn argyfwng yn y Sir yn gadarnhaol iawn, a chafwyd dros 50 aelod staff yn cynnig gwirfoddoli os oedd angen.

Nodwyd bod rhywfaint o ddifrod wedi bod i doeon nifer o adeiladau yn Aberystwyth gan gynnwys Amgueddfa Ceredigion. Er bod rhai strydoedd wedi ailagor, roedd eraill yn dal ar gau am resymau diogelwch hyd nes y byddai'r gwaith angenrheidiol yn cael ei wneud, gan gynnwys symud teils to mawr o gafnau er diogelwch y cyhoedd. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud heddiw, gobeithio, a byddai adeiladau'r cyngor gerllaw yn gallu agor yfory. Cynhelir archwiliad arall yn Aberystwyth heddiw am 11.15 i asesu diogelwch y dref.

Ategodd Aelodau eiriau'r Arweinydd a diolchwyd i bawb dan sylw am eu gwaith caled yn ystod cyfnod y storm ddiweddar.

**184 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny.**

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2022 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

**185 Unrhyw ddeisebau a dderbynwyd**

Dim.

**186 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Dim.

**187 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda.**

Dim.

**188 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Ffioedd a Chostau gydag adborth gan Drosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyo'r Ffioedd a Chostau i fod mewn grym o 01/04/2022 (ac eithrio Prydau Ysgol, Ffioedd Parcio Ceir yn Llandysul a Thregaron a Chychod Dau Gorff x 2), fel yr amlinellir yn:

   a. Atodiad 1
   b. Atodiad 2
   c. Atodiad 3
   d. Atodiad 4
2. Cymeradwyo'r newid o ran Ffioedd a Chostau Prydau Ysgol fel yr amlinellir yn Atodiad 2 i fod mewn grym o 01/09/2022.
3. Dirprwyo awdurdod i Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar, mewn ymgynghoriad ag Aelod Cabinet y portffolio â chyfrifoldeb am y Canolfannau Lles, i amrywio'r Ffioedd a Chostau ar gyfer y Canolfannau Lles ar gyfer 2022/23, i redeg cynigion hyrwyddol tymor byr / â chyfyngiad amser.
4. Cytuno na fyddai ffioedd parcio ceir yn Llandysul a Thregaron yn 2022/2023 fel a nodir yn Atodiad 3.
5. Dileu'r cyfeiriad at *Gychod Dau Gorff x 2* yn Atodiad 3, tudalen 45.
6. Nodi'r adborth gan bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Gyllideb.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*
- Er mwyn ystyried Ffioedd a Chostau yn rhan o broses y Cyngor ar gyfer pennu'r gyllideb.
- Cymell rhagor o bobl i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol rheolaidd a byw bywydau iachach.
- Caniatáu ar gyfer ei ystyried ymhellach.

**189 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022/23 gydag adborth gan Drosolwg a Chraffu**

Disodlwyd yr adroddiad hwn gan yr Atodiad i'r Adroddiad (eitem 190).

**190 Adendwm- Adroddiad Brys Atodol gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael ar y Gyllideb ddrafft ar gyfer 202223**

PENDERFYNIAD:

a) Nodi'r Adborth gan bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Gyllideb.
b) Argymell i'r Cyngor Llawn mai cyfanswm cyllideb sylfaenol drafft 2022/23 yw £165.843m a bod lefel y Dreth Gyngor uwch a gynigiwyd ar gyfer 2022/23 yn 2.5% sy'n cynrychioli swm Band D o £1,447.90.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*
I alluogi paratoi'r gyllideb ar gyfer 2022/23.

**191 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022/23 a Pholisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) ar gyfer 2022/23**

PENDERFYNIAD:

a) Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys fel y'i hamlinellir yn yr adroddiadau ar gyfer Benthyca a Buddsoddi;
b) Cymeradwyo'r Atodlen Buddsoddi fel y'i nodir yn Atodiad B;
c) Cymeradwyo'r Polisi Datganiad Isafswm Refeniw ar gyfer 2022/23 fel y'i nodir yn Atodiad C;

d) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Adran 151, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Caffael a Diogelu'r Cyhoedd, i newid Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Atodlen Buddsoddi, yn ystod y flwyddyn;
e) Argymell bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys o ran Benthyca a Buddsoddi ar gyfer 2022/23; ac yn
f) Argymell bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r Polisi Darparu Isafswm Refeniw ar gyfer 2022/23.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*
Gosod Strategaeth Rheoli Trysorlys a Pholisi Isafswm Refeniw ar gyfer 2022/23.

**192 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 gydag adborth gan Drosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

i) Cytuno i fabwysiadu cynnwys Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2032, a'i weithredu o Fedi 1af 2022 ac am y ddegawd i ddilyn.
ii) Bod unrhyw sylwadau a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys fel gwelliannau i'r Cynllun, ac yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac i'r Cabinet er gwybodaeth.
iii) Bod Cynllun Gweithredu blynyddol yn cael ei lunio a'i fonitro drwy gyfrwng y Fforwm Iaith a phwyllgor Dyfodol Dwyieithog.
iv) Bod adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Strategol Addysg y Gymraeg yn cael ei gyflwyno i'r Fforwm Iaith, pwyllgor Dyfodol Dwyieithog, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac i'r Cabinet.
v) Nodi'r adborth oddi wrth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*
I gydymffurfio gyda Adran 84 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a rheoliadau Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru 2019.

**193 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch Cynigion Tai Cymunedol gydag adborth gan Drosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

Argymell i'r Cyngor:

1. Penderfyniad y Cyngor 24/3/16 Cofnod 12) Adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr ar Bremiymau Treth y Cyngor ar gyfer cartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi, pwynt 4 i'w ddiwygio fel a ganlyn:
   "4.a) Lefel Premiwm Ail Gartrefi Treth y Cyngor a godir i'w phennu ar 25% (yn dod i rym o 1 Ebrill 2017); a,
   b) bod yr holl arian a godir o Bremiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol."

2. Bod yr holl arian a godir o Bremiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor rhwng y cyfnod 1/4/17 I 31/3/22 (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.
3. Bod yr holl arian a godir o Bremiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor o 1/4/22 (net o addaliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.
4. O 1/4/22, bod yr holl arian a godir o Bremiwm 25% Cartrefi Gwag Treth y Cyngor (net o addaliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.
5. Diddymu penderfyniad y Cyngor 16/3/17 cofnod 8.b) Premiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi.
6. Bod manylion elfen rhannu ecwiti o'r cynllun yn cael eu paratoi a'u cytuno o fewn 12 mis i benderfyniad y Cyngor a bod gwaith yn parhau ar yr opsiynau eraill.
7. Gohirio'r posibilrwydd o sefydlu Cynllun Mantais Gymunedol am flwyddyn.
8. Nodi’r adborth oddi wrth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

1. Er mwyn paratoi a gweithredu Cynllun Tai Cymunedol sy'n gweithredu yn ôl gweledigaeth a amlinellwyd gan y Grŵp Annibynnol.
2. Gweithredu cynllun sy'n cefnogi pobl o fewn y Sir i gael gafael ar dai sy'n cwrdd â'u hanghenion.

**194 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Mabwysiadu Priffordd Brynhyfryd, Aberteifi**

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo mabwysiadu Bryn Hafod drwy broses Adran 228 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a’i chynnal wedi hynny.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

I alluogi’r heol i gael ei chynnal ar gost y cyhoedd.

**195 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol Gorfodol ar gyfer Plant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches**

PENDERFYNIAD:

1) Nodi'r newid yn y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar gyfer Plant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches o fod yn gynllun gwirfoddol i fod yn gynllun gorfodol.
2) Cymeradwyo cefnogaeth i Opsiwn 4 mewn trafodaethau ynghylch sut y bydd y cynllun yn gweithredu yng Nghymru - Sefydlu rota rhanbarthol lle caiff atgyfeiriadau o dan y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol eu trosglwyddo i ranbarthau'r 4 ardal wasgaru hirsefydlog.
3) Nodi, os na cheir cytundeb ar sail Cymru gyfan, mai'r sefyllfa ddiofyn a orfodir gan y Swyddfa Gartref fydd Opsiwn 2 a fydd yn golygu y bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol fodloni ei ddyraniad unigol.
4) Awdurdodi swyddogion i gydweithio â Chonsortiwm Comisiynu Plant Cymru, sef y corff Comisiynu ar gyfer lleoliadau ar gyfer plant sy’n derbyn

gofal, a'r Awdurdodau Lleol eraill yn y rhanbarth ac ar draws Cymru er mwyn sicrhau'r gydymffurfiaeth orfodol ac angenrheidiol.

5) Cytuno ar yr egwyddor o'r angen am gyllid digonol i'r cynllun weithredu'n effeithiol.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*
Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth orfodol â gofynion statudol.

**196 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Cyllid i sefydlu gweinyddiaeth gyfer Cofrestr Adran 117 canolog**

PENDERFYNIAD:
Cymeradwyo cyfraniad ariannol i sefydlu'r weinyddiaeth ar gyfer cofrestr canolog Adran 117 o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl gan weithredu'r fformiwla ariannu rhanbarthol a gytunwyd.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*
I gwrdd a dyletswyddau statudol a chefnogi cydlynu effeithiol gwasanaethau.

**197 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Newidiadau i Bolisi Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai Sector Preifat Ceredigion gydag adborth gan Drosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:
(i) Cymeradwyo y newidiadau arfaethedig i Bolisi Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai Sector Preifat Ceredigion.
(ii) Nodi'r adborth oddi wrth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachus.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*
Er mwyn sicrhau bod Polisi Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai Sector Preifat Ceredigion yn cael ei weithredu'n effeithiol.

**198 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Sefydlogrwydd y Farchnad yng Ngorllewin Cymru: Crynodeb Gweithredol**

Nodwyd yr adroddiad.

**199 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Asesiad o Boblogaeth Gorllewin Cymru 2022**

Nodwyd yr adroddiad.

**200 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd ynghylch Cofnod o Gamau Gweithredu a Phenderfyniadau'r Ymgynghori Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd**

Nodwyd yr adroddiad.

**201 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**

Dim.

**Cadeirydd:** ____________________

**Dyddiad:** ____________________